**Taith ryngwladol Natasha Asghar AS i Helsinki, y Ffindir**
**Awst 26 – 29, 2025**

**Trosolwg:** Gan fod gan y Ffindir un o'r systemau addysg sy'n perfformio orau, es i ar ymweliad i Helsinki i weld beth mae'r wlad yn ei wneud yn iawn ac i weld a oedd unrhyw beth y gallem ei gyflwyno yma yng Nghymru i hybu ein perfformiad addysgol.

**Awst 26 - Diwrnod teithio**

**Awst 27** Dechreuais fy nhaith gyda chyfarfod ag Ysgrifennydd Gwladol y Ffindir i'r Gweinidog Addysg, Mikaela Nylander, yn y Weinyddiaeth Addysg a Diwylliant.
Trafodon ni amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys mynd i'r afael ag ymddygiad gwael, canlyniadau PISA, anllythrennedd, recriwtio a chadw athrawon, a chludiant i'r ysgol.
Fe wnaethon ni drafod hefyd benderfyniad diweddar y Ffindir i wahardd ffonau symudol mewn ysgolion - rhywbeth y mae'r Ceidwadwyr Cymreig wedi addo ei wneud.
Roedd cefnogaeth i ddisgyblion ag ADY, prentisiaethau, a chyllid ysgolion hefyd yn bynciau a drafodwyd yn y cyfarfod.
Yna es i i Brifysgol Helsinki i gyfarfod â Deon





y Gyfadran Gwyddorau Addysgol, yr Athro Johanna Mäkelä, a'r Is-Ddeon Arto Kallioniemi.



Fe wnaethon ni siarad am y pwysigrwydd a roddir i ymchwil mewn prifysgolion, y lefel uchel o addysg y mae'n ofynnol i athrawon ei chael cyn mynd i mewn i'r ystafell ddosbarth, y sefyllfa a'r profiad o ran myfyrwyr rhyngwladol, a system addysg rad ac am ddim y wlad.

Roedd cyflwr presennol prifysgolion yng Nghymru hefyd yn bwnc llosg i'r grŵp, yn ogystal â system y Ffindir ar gyfer athrawon cyflenwi.



**Awst 28**

Ymwelais ag Ysgol Hyfforddi Athrawon Viikki i gyfarfod â'r pennaeth gweinyddol Tapio Juhani Lahtero a'i dîm.

Trafodon ni'r cyfraddau anllythrennedd presennol yng Nghymru, y ffordd y mae'r proffesiwn addysgu yn cael ei werthfawrogi yn y Ffindir, cyflogau athrawon, sut i gynyddu nifer yr athrawon, mynd i'r afael â gorweithio a lludded athrawon, a rhoi'r sgiliau i athrawon i gefnogi myfyrwyr ag ADY.



Trafodwyd hefyd addysgu plant gartref, y defnydd o ddeallusrwydd

artiffisial yn y maes addysg, prydau ysgol am ddim, absenoldeb, a phrentisiaethau yn ystod y cyfarfod.

Gorffennais fy nhaith fer i'r Ffindir gyda chyfarfod yn Llysgenhadaeth Prydain gyda Laura Davies, Llysgennad Prydain i'r Ffindir.



Yn ystod y cyfarfod, buom yn trafod gorfodaeth filwrol y Ffindir, y gwaharddiad ar ffonau symudol a gyflwynwyd yn ddiweddar, cyllid ysgolion, penderfyniad y Ffindir i roi'r gorau i arolygiadau ysgolion, a'r gwahaniaeth rhwng y prosesau arholi yn y Ffindir ac yng Nghymru.



Trafodwyd hefyd broblemau ehangach yng nghyd-destun y Ffindir, fel cyfraddau troseddu, cam-drin domestig, system lles y Ffindir, materion cyfredol o ran mewnfudo, a'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau.

**<u>Awst 29 – Diwrnod teithio</u>**



**<u>Casgliad:</u>** Mae'n amlwg bod y Ffindir yn gwneud llawer o bethau'n iawn o ran ei system addysg ac roedd yn braf clywed a gweld y pwyslais a roddir ar roi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i bobl ifanc.

Er bod y Ffindir yn wynebu rhai problemau o ran ei chynigion addysg, fel gorweithio athrawon a'r

lludded o ganlyniad, nid ydynt yn ddim o'u cymharu â'r hyn rydym yn ei brofi yma yng Nghymru.
Mae'n hanfodol bod y llywodraeth yn dechrau chwilio am atebion a dysgu arferion gorau o wledydd eraill.
Roedd y daith i'r Ffindir yn agoriad llygaid go iawn a bydd yr hyn rydw i wedi'i ddysgu yn sicr o fy helpu i lunio fy mholisïau a'm gwaith.